TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# AQA Safon Uwch Athroniaeth Lefel 3



**Yn gryno**

Mae Safon Uwch Athroniaeth yn gwrs unigryw a heriol sy'n archwilio pedwar o feysydd unigryw syniadaeth athronyddol. Yn y pwnc, byddwch yn ystyried natur realiti, yn mynd i'r afael â'r athroniaeth foesol a'r cysyniad o 'ddaioni', ac yn ystyried - o safbwynt seciwlar - tarddiad a phwrpas y bydysawd. Byddwch yn ymdrin â'r meddylwyr mwyaf blaenllaw yn hanes dynoliaeth, yn ogystal â thrafod damcaniaethau arloesol ynghylch ymwybyddiaeth a rhyddid pobl.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

...ydych yn un sy'n gofyn, ac yn ceisio ateb, cwestiynau hanfodol, megis:

Beth yw gwybodaeth?
Ydyn ni'n gweld y byd fel y mae, neu ydy'r ffordd rydyn ni'n gweld y byd yn gamarweiniol?
Ydy Duw'n bodoli a beth yw problem drygioni?
Beth yw natur meddwl ac ydy hi'n bosib esbonio'r meddyliol mewn termau ffisegol yn unig?
Beth yw 'daioni' yn nhermau moesoldeb, a beth yw natur iaith foesol?

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae'r cwrs hwn wedi'i rannu'n bedair rhan:

Epistemoleg (Theori Gwybodaeth)
Athroniaeth Foesol
Metaffiseg Duw
Metaffiseg Meddwl

Ym mhob un o'r meysydd hyn, byddwch yn ymdrin â thestunau a syniadau rhai o'r meddyliau mwyaf blaenllaw yn hanes, i'ch helpu i fynd i'r afael â'r cwestiynau uchod a llawer iawn mwy. Bydd eich astudiaethau'n cynnwys ymdrin â thestunau gosod, trafodaethau tanbaid ac ysgrifennu traethodau.

Cwrs Safon Uwch llinellol yw'r cwrs hwn. Ni fydd arholiad Safon UG ar ôl y flwyddyn gyntaf.

Byddwch yn cael eich asesu drwy ddau bapur tair awr.

Drwy gwblhau'r cwrs, byddwch yn cyflawni:

Safon Uwch Athroniaeth

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru ar y cwrs hwn, bydd arnoch angen o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Gradd B mewn Saesneg a Mathemateg ac un pwnc dyniaethau, megis Hanes neu Addysg Grefyddol.

Mae angen ymrwymiad llawn i bresenoldeb, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu'n barhaus ac mae disgwyl eich bod yn parhau â'ch astudiaethau a'ch darllen ehangach yn ystod eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae Athroniaeth yn bwnc Safon Uwch heriol ac uchel ei barch. Mae prifysgolion a chyflogwyr yn ystyried y pwnc yn un heriol o safbwynt academaidd ac yn bwnc tu hwnt o ddefnyddiol ar gyfer amrywiaeth o gyrsiau gradd a llwybrau cyflogaeth. Mae Athroniaeth yn bwnc defnyddiol ar gyfer rhai sy'n ystyried gyrfa mewn meysydd megis moeseg (meddygol, llunio polisïau etc), y gyfraith, llywodraeth, gwasanaeth sifil, newyddiaduraeth, busnes, y byd academaidd ac

addysg.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Os yw'n bosib, byddwn yn darparu copïau o destunau gosod priodol i fyfyrwyr. Mae dau werslyfr cysylltiedig â'r cwrs y byddem yn cynghori myfyrwyr i'w prynu. Yn ogystal, bydd cyfleoedd yn codi i gymryd rhan mewn gweminarau, darlithoedd a sgyrsiau athroniaeth, a digwyddiadau eraill a ystyrir yn berthnasol i'r ddisgyblaeth